20.12.2021

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880493

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Dathlu bywyd un o sêr canu gwlad y 70au

I'r nifer sydd wedi colli'u hanwyliaid dros gyfnod y pandemig, tristach byth oedd methu ag ymgynnull i gofio am y person arbennig yn eu bywydau.

I deulu o ardal Harlech, **Gwesty Aduniad** oedd y lleoliad perffaith felly i ddod ynghyd i ddathlu bywyd un o sêr canu gwlad y 70au.

Bu farw Glyn Williams – neu Dave Curtis fel oedd yn cael ei adnabod ar y llwyfan – ychydig ddyddiau ar ôl y Nadolig yn 2020.

"Dan ni'n eithriadol o ddiolchgar bod hogyn cyffredin o Dalsarnau wedi mynd yn uchel yng ngrisiau adloniant, a cherdded i mewn i yrfa lwyddiannus dros ben," meddai Elwyn, brawd Glyn.

Ar ôl ennill cystadleuaeth dalent boblogaidd New Faces yn 1977, fe deithiodd Dave Curtis y byd gyda'i gitâr dan ei fraich, gan gyhoeddi tri albwm llwyddiannus.

"Yr *equivalent* o hwnnw rŵan ydy ennill Britain's Got Talent, neu rhywbeth fel'na. Odd o'n *massive* yn y 70au i ennill hwnna, yn dod o le mae o di dod," meddai Lowri am ei Yncl Glyn.

Ar ôl i Dave Curtis ddiddanu cynulleidfaoedd a denu dilynwyr brwd ledled y byd, yn Sir Amwythig treuliodd blynyddoedd olaf ei fywyd.

"Dyna'r tristwch; bod bachgen wedi gneud llawer wedi marw o'r hen glwyf Alzheimer's yma," meddai Elwyn.

"Afiach o salwch ydy cerdded ar hyd llwybr a methu troi nôl am adra."

"O'n i wedi bod i'w weld o yn y cartra, ac o'n i'n ista efo fo yn y stafell. Ddoth y staff â'r gitâr a'r bwriad oedd mod i'n sbarduno'i feddwl o drwy ail-ganu'r hen ganeuon efo fo. Ond ddaru o afael yn y gitâr, ac oedd o'n edrych ar gefn y gitâr a ddim lle oedd y tanau, fel tasa fo ddim yn gallu deall be goblyn oedd yn ei law."

Dydy Elwyn na Lowri heb weld rhai o aelodau eraill y teulu ers y cynhebrwng, pan nad oedd modd croesawu mwy na 30 o bobl, a hanner awr yn unig oedd hyd y gwasanaeth oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Ond yng ngerddi hardd **Gwesty Aduniad**, mae cyfle i'r teulu cyfan fod gyda'i gilydd mewn un man er mwyn talu teyrnged deilwng i ddyn arbennig.

“Roedd Dad yn foi anhygoel, yn dalentog iawn. Roedd pawb yn ei garu, o deulu i ffrindiau yn y diwydiant cerddoriaeth. Roedd o’n uchel ei barch, yn dod ymlaen ag unrhyw un, dyna’r fath o berson oedd o,” meddai Mark, mab Glyn.

“Mae heddiw wedi bod yn wych. Clywed brawd fy nhad – roedd ei araith o’n anhygoel. Clywed y band yn canu’r gân Broken Hill ysgrifennodd o, nath hynny wir gyffwrdd fy nghalon.”

**Gwesty Aduniad**
**Nos Iau 13 Ionawr 9.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Darlun ar gyfer S4C**

20.12.2021

Mali Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880493

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Celebrating the life of a 70s country-singing star

For many, losing a loved one during the pandemic was made more painful by being unable to gather with others to remember that wonderful person in their lives.

So **Gwesty Aduniad** (Reunion Hotel) was the perfect location for a family from Harlech to get together to celebrate the life of a 70s country-singing star.

Glyn Williams – or Dave Curtis as he was known on stage – passed away a few days after Christmas in 2020.

"We're incredibly grateful that a normal boy from Talsarnau rose high in the world of entertainment, and walked into a very successful career," said Elwyn, Glyn's brother.

After winning the popular talent show New Faces in 1977, Dave Curtis travelled the world with his guitar in hand and released three successful albums.

"The equivalent of that today is winning Britain's Got Talent or something like that. It was massive in the 70s to win that, coming from where he came from," Lowri said of her Yncl Glyn.

Having entertained audiences and fans all over the world, Dave Curtis spent his final years in Shropshire.

"That's what's sad; that a boy who did so much died of that awful illness, Alzheimer's," Elwyn said.

"It's an awful disease, like walking along a path and you can't turn around to go home."

"I'd been to see him at the home, and I sat with him in the room. The staff brought a guitar, and the idea was that I'd spark his memory through playing some of the old songs with him. But he held the guitar, and he was looking at the back of it instead of where the strigs are, as if he couldn't understand what on earth was in his hands."

Neither Elwyn nor Lowri have seen some of the family since the funeral, when Covid-19 restrictions meant that only 30 people could attend, and that the ceremony was only half an hour long.

But in **Gwesty Aduniad**'s beautiful gardens, there's a chance for the whole family to be together in one place to pay a worthy tribute to a great man.

"My Dad – amazing bloke, very talented, very much loved by anybody and everybody, from family to friends in the music industry, well-respected, he got along with anybody – that's the sort of person he was," said Mark, Glyn's son.

"Today has been great. Hearing my Dad's brother – his speech was amazing. Hearing the band doing that Broken Hill song he wrote was very touching for me."

**Gwesty Aduniad**
**Thursday, 13 January 9.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Darlun production for S4C**